Cofnodion Pwyllgor Cynllunio a Dibenion Cyffredinol Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd ddydd Mercher, Gorffennaf 9fed, 2008 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 7.00 pm

Presennol: Y Maer Cyng Edward Thomas, Dirprwy Faer Cyng Charlotte Leadbeater, Cyng Colin Jenkins, Cyng Dawn Wallace, Cyng Fran Murphy, Cyng Roy Davies Cyng Christopher Parish, Cyng Richard Wallace, Roger Phillips (Clerc y Dref) Des Davies (Swyddog Technegol)

Ymddiheuriadau Cyng Julia Jones

Cof 92/ Gorffennaf / 08 Ceisiadau Cynllunio i'w Penderfynu

E/19339. Newid defnydd swyddfa yn Feddygfa Ddeintyddol (llawr gwaelod yn unig) yn 22, Heol Cilgant
Sylw : Dim gwrthwynebiad

E/19044 Amrywio amod cynllunio ar E/15270, cynllun parcio ceir diwygiedig ar dir oddi ar Adeiladau'r Banc
Sylw : Dim gwrthwynebiadau. Fodd bynnag fe ddylai'r adran Gynllunio sicrhau bod y mesurau arafu traffig y cytunwyd arnynt ar gyfer yr ardal oddi amgylch wedi'u cwblhau fel mater o frys a hynny er budd diogelwch y cyhoedd.

Cof 93/ Gorffennaf / 08 Penderfyniadau ar Geisiadau Cynllunio

E/18519 Dymchwel garej ddwbl sydd eisoes yn bodoli, ei ailadeiladu gyda tho sy'n goleddu ac ystafell hobi yn 9, Heol Stepney.
CANIATAWYD

E/19044 Estyniad deulawr ar anheddle (ailgyflwyno E/18590 a wrthodwyd 22.4.08) yn 6, Y Trallwng
GWRTHODWYD

Cof 94 / Gorffennaf / 08 Ni Thynnwyd unrhyw Gynllunio yn ôl.

Cof 95 / Gorffennaf/ 08 Doedd yna ddim Apeliadau Cynllunio

Cof 96 / Gorffennaf/ 08 Materion Cludiant a Phriffyrdd

1. CSC – Rhybudd bod ffordd yn cau Dros Dro yn Stryd Sior a Bryn Sior o'r 24ain Gorffennaf am gyfnod o dair wythnos. Nodwyd.
2. CSC – Cynllun Diogelwch Ffordd 2010. Nodwyd.
3. Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at Gwasanaethau Stryd CSC yn eu hysbysu bod yr arwyddion ar gyfer traffig sy'n defnyddio Stryd Sior yn annigonol. Nid yw cerbydau yn cymryd sylw o'r arwydd un ffordd, gan fynd i Heol Rhosmaen o Stryd Y Brenin.

4. Yn dilyn cwynion, gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at Mr Eifion Bowen, Swyddog Cynllunio CSC fod y byrddau a chadeiriau sy'n cael eu gosod y tu allan i 'Cafe Salvador' gan dynnu ei sylw at y rhwystr i gerddwyr.

Cof 97 / Gorffennaf / 08 Doedd yna ddim materion Trwyddedu

Cof 98 / Gorffennaf /08 Adroddiad y Swyddog Technegol

Croesawodd y Cadeirydd, Cyng Colin Jenkins Mr Davies wrth iddo ddychwelyd yn dilyn ei ddamwain.
Adroddodd Mr Davies fod cloc y Cyngor wedi'i drwsio ac yn barod i'w osod yn Siambr y Cyngor.
Adroddodd Mr Davies fod Pont y Brenin mewn cyflwr peryglus. Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at CSC yng gofyn iddynt wneud gwaith atgyweirio brys.

Cof 99 / Gorffennaf / 08 Gohebiaeth

1. Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin. Gwahoddiad i safleoedd ymgeisio. Cynigiodd y Cyng Roy Davies y dylid gwahodd swyddog o'r Adran Gynllunio i annerch y Cyngor cyn cyfarfod nesaf o'r Cyngor Llawn ar Orffennaf 23ain am 6.30pm. Bydd copi o lythyr y Cyng Davies yn gofyn am fanylion yr ymgynghoriad yn cael ei anfon gyda'r gwahoddiad. Eiliwyd hyn gan y Cyng Dawn Wallace. Roedd pawb o blaid.
2. Cyngor Cymuned Manordeilo a Salem – Llythyr o gefnogaeth am bwll nofio i wasanaethu'r ardal.
3. Gwahoddiad gan yr Eisteddfod Genedlaethol i fynychu derbyniad i awdurdodau lleol ar ddydd Sadwrn Awst 2 yng Nghaerdydd. Bydd y Maer yn mynychu.
4. Mr Phil Wait – ateb i gais am awgrymiadau ar gyfer arwydd Cyngor ar Neuadd y Sir. Bydd y Cyng Colin Jenkins yn trefnu ymweliad safle gyda Mr Adrian Griffiths, Swyddog CSC er mwyn derbyn cymeradwyaeth i'r cynllun.
   Cynigiwyd gan y Cyng Roy Davies fod y Swyddog Technegol yn derbyn dyfynbrisau ar gyfer ailosod y plac treftadaeth glas tu allan i Neuadd y Sir. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng Charlotte Leadbeater. Roedd pawb o blaid.

Cof 100 / Gorffennaf / 08 Doedd yna ddim rhagor o fusnes.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.55 pm